***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 3. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 3

## DARPARIAETHAU TROSIANNOL, ATODOL AC ARBED

## **RHAN 1**

## YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL

*Arbedion yn ymwneud â chyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth*

3 (1) Pan fo gwybodaeth wedi ei chael gan—

(a) archwilydd a benodwyd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o dan ddarpariaeth o'r Ddeddf honno sydd wedi ei diwygio gan y Ddeddf hon,

(b) person sy'n gweithredu ar ei ran, neu

(c) person sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol o dan ddarpariaeth unrhyw un o'r deddfiadau a ganlyn sydd wedi ei diwygio gan y Ddeddf hon—

(i) adran 145C o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998,

(ii) Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999,

(iii) Rhan 1 neu Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, neu

(iv) Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009,

nid effeithir ar y modd y mae unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â datgelu gwybodaeth yn gweithredu gan ddiwygiad i'r ddarpariaeth honno.

(2) I'r graddau y mae'n angenrheidiol ar gyfer parhau'r modd y mae unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â datgelu gwybodaeth yn gweithredu, bydd gwybodaeth sydd wedi ei chael mewn modd a grybwyllir yn is-baragraff (1) i'w thrin yn yr un modd a gwybodaeth sydd wedi ei chael gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 3 para. 3 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 3.